Cyflwyniad i'ch Pensiwn y Wladwriaeth

Mae eich Pensiwn y Wladwriaeth yn sylfaen dda i gynllunio ar gyfer ymddeoliad. Mae'r cwestiynau ac atebion canlynol wedi'u cynllunio i'ch helpu i ddod i'r afael gyda'ch Pensiwn y Wladwriaeth a cymryd y camau cyntaf syml tuag at gynllunio a chynilo ar gyfer eich ymddeoliad.

1. Beth yw'r Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth?

Mae'r Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol yn daliad rheolaidd gallech wneud cais amdano pan rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

2. Sut ydw i'n adeiladu fy Mhensiwn sylfaenol y Wladwriaeth?

Mae swm eich Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol yn dibynnu ar ei cofnod Yswiriant Gwladol. Pan ydych yn gweithio rydych yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac mae rhain yn mynd tuag at eich Pensiwn y Wladwriaeth, ymysg pethau eraill. Hefyd gallwch gael eich credydu gyda chyfraniadau os, er enghraifft rydych wedi cymryd amser allan o'r gweithle i edrych ar ôl eich plant neu os ydych wedi bod yn gofalu am rhywun neu wedi hawlio budd-daliadau penodol.

3. Beth yw 'blynyddoedd cymhwyso' a faint sydd angen arnaf i gael y Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn?

I gael y Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn mae'n rhaid i chi adeiladu nifer penodol o flynddoedd o gyfraniadau Yswiriant Gwladol, a elwir yn 'blynyddoedd cymhwyso'. Mae'r nifer o flynyddoedd cymhwyso rydych ei angen yn dibynnu ar eich oedran:

- mae dynion a merched sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010 angen 30 o flynyddoedd cymhwyso i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn.

Os oeddech wedi cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2010, ewch i'n gwefan yn www.direct.gov.uk/dyfodolgwell i weld faint o flynyddoedd cymhwyso rydych ei angen.

4. Faint o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth fyddaf yn ei gael?

Ar hyn o bryd mae'r Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol llawn yn tua £97 yr wythnos, ond mae'r swm byddwch yn dderbyn yn dibynnu ar nifer o bethau, yn bwysicaf y nifer o flynyddoedd cymhwyso rydych wedi ei adeiladu drwy Yswiriant Gwladol rydych wedi'i gyfrannu neu wedi'ch credydu gyda ar hyd eich bywyd gwaith. Efallai y byddwch yn cael rhywfaint o Bensiwn y Wladwriaeth ychwanegol ar ben eich Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol. Fel arfer mae Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol yn cynyddu pob blwyddyn i ddiogelu ei werth a sicrhau y bydd yn prynu'r tua'r un fath yn y dyfodol ac y mae nawr. Ar hyn o bryd mae Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol fel arfer yn cael ei gynyddu yn flynyddol yn ôl prisiau. O Ebrill 2011 bydd yna 'gwarant driphlyg' fel fod Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol yn codi o'r uchaf o'r canlynol:

- enillion – cyfartaledd y cynnydd mewn cyflogau yn y DU am y flwyddyn honno
- prisiau – faint mae côst byw wedi cynnyddu yn y flwyddyn honno
- 2.5 y cant.

Gallwch ddechrau drwy ddefnyddio'r amlinellydd Pensiwn y Wladwriaeth – mae'n declyn ar-lein syml sy'n dangos i chi faint o Bensiwn y Wladwriaeth sylfaenol efallai rydych wedi ei adeiladu a phryd gallwch wneud cais amdano. Gallwch weld hwn drwy fynd i www.direct.gov.uk/dyfodolgwell

5. Pryd gallaf gael fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

Gallwch wneud cais am y Pensiwn y Wladwriaeth pan rydych yn cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth, sy'n dibynnu ar pryd y ganwyd chi. Mae oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched nawr yn cynyddu yn raddol o 60 oed i 65 oed, yn unol ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi cynigion newydd ar gyfer cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth. O dan y cynigion newydd, bydd oedran Pensiwn i ddynion a merched yn dechrau cynyddu o Ragfyr 2018 i gyrraedd 66 erbyn Ebrill 2020. Bydd hyn yn golygu fod oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched yn cynyddu'n fwy cyflym i

Cysylltwch â ni am fod yn bartner:
mailto:pensions.planning@dwp.gsi.gov.uk

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Cyflwyniad i'ch Pensiwn y Wladwriaeth (tudalen 2)

65 rhwng Ebrill 2016 a Tachwedd 2018. Nid yw'r cynigion i'r newidiadau i'r amserlen yn gyfraith eto ac maent dal angen cymeradwyaeth y Senedd.

Mae'n bwysig eich bod yn deall pryd fyddwch yn gallu cael eich Pensiwn y Wladwriaeth fel y gallwch gynllunio ymlaen. Mae'n hawdd darganfod eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth bresennol drwy ddefnyddio'r wybodaeth ar ein gwefan. I ddarganfod eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth presennol nawr, ewch i www.direct.gov.uk/pensiwnywladwriaeth

6. Dwi'n meddwl efallai nad wyf â digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol i gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn. Beth sydd angen i mi wneud?

Peidiwch â phoeni – mae yna ddwy ffordd efallai gallech gynyddu eich hawliad Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth:

- Os oes gennych ŵr, gwraig neu bartner sifil gyda chofnod Yswiriant Gwladol dda, gallech fod â hawl i rywfaint o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth drwyddynt hwy. Gall hyn rhoi cyfanswm o Bensiwn y Wladwriaeth o hyd at 60 y cant o'r gyfradd lawn i chi gan gynnwys unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth eich hun. O Ebrill 2010, mae'r Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol yn tua £97 yr wythnos, felly gallech gael Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol o tua £58 yr wythnos. Am fwy o wybodaeth ewch i www.direct.gov.uk/pensiwnywladwriaeth

NEU

- efallai gallwch brynu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol. Taliadau yw'r rhain efallai byddwch yn gallu eu gwneud i lenwi bylchau yn eich cofnod ac i adeiladu Pensiwn y Wladwraieth sylfaenol mwy pan ydych yn gwneud cais amdano. Mae yna derfynau amser i dalu rhain felly gwiriwch sut gall unhyw gyfyngiadau effeithio arnoch cyn i chi benderfynu os yw'n opsiwn da.

Os ydych dal i boeni am eich incwm ymddeol, mae yna ffyrdd eraill i'w wella fel gweithio'n hirach. Cewch wybod mwy yn www.direct.gov.uk/topupni

Mae amgylchiadau pawb yn wahanol felly mae'n bwysig iawn i wirio a deall eich opsiynau i gyd cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

7. Beth os ydw i am weithio'n hirach neu ohirio cymryd fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

Nid oes oedran ymddeol y Wladwriaeth. Gallwch barhau i weithio heibio eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac mae llawer o fanteision i aros mewn gwaith. Er enghraifft, unwaith rydych wedi cyrraedd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth ni fyddwch yn talu Yswiriant Gwladol ar eich enillion. Efallai mae'n gwneud synnwyr ariannol i ohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth os oes gennych incwm arall fel cyflog, oherwydd gallwch gael swm wythnosol uwch nes ymlaen, neu gyfandaliad gyda llog, os ydych yn gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth am o leiaf blwyddyn.

Y dyddiau hyn mae llawer o opsiynau i weithwyr hŷn. Gallwch siarad â'ch cyflogwr ynglŷn ag aros ymlaen, newid swyddi, neu weithio'n hyblyg. Mae gohirio gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth yn benderfyniad fydd rhaid i chi ei wneud yn seiliedig ar eich amgylchiadau unigol. Cewch wybod mwy yn www.direct.gov.uk/workingpastpensionage

8. Os rwy'n cael pensiwn preifat neu'n rhoi arian mewn cyfrif cynilo, ydw i'n cael llai o Bensiwn y Wladwriaeth?

Nid yw'r Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar incwm. Ni fydd eich Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei effeithio os oes gennych gynilion, cynlluniau pensiwn preifat, personol neu weithle, eiddo neu ffynonellau eraill o incwm.

9. Beth yw'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth?

Mae'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn rhan o'r pensiwn posibl allwch ei gael gan y Wladwriaeth. Mae faint gewch chi yn dibynnu ar nifer o bethau. Efallai ni fydd pobl sydd wedi eithrio allan neu'n hunan-gyflogedig yn cael Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

Hyd at Ebrill 2002, gelwir y Pensiwn ychwanegol i weithwyr yn Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS). Mae'r swm o bensiwn SERPS

Cysylltwch â ni am fod yn bartner:
mailto:pensions.planning@dwp.gsi.gov.uk

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Cyflwyniad i'ch Pensiwn y Wladwriaeth (tudalen 3)

oeddech yn ei dderbyn yn seiliedig ar gyfuniad o'r swm o'ch cyfraniad Yswiriant Gwladol a faint oeddech yn ei ennill.

Ym mis Ebrill 2002 cafodd SERPS ei ddiwygio ac nawr mae'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn cael ei adnabod fel Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Mae nawr yn rhoi Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol mwy hael i bobl sydd ar enillion isel neu gymhedrol, rhai gofalwyr, pobl â salwch hir-dymor a phobl anabl. Am fwy o wybodaeth ewch i www.direct.gov.uk/pensiwnywladwriaeth

10. Beth dylwn ei wneud os nad ydwyf yn gweithio ac yn gofalu am rhywun neu mwy na un person?

Os ydych yn gofalu am un neu fwy o bobl am 20 awr neu fwy yr wythnos ond ddim yn cael Lwfans Gofalwr neu Gymhorthdal Incwm fel gofalwr, gallwch wneud cais am y credydau Yswiriant Gwladol newydd i ddiogelu eich Pensiwn y Wladwriaeth, a elwir yn Gredyd Gofalwr

Mae Credyd Gofalwr i bobl sydd yn edrych ar ôl teulu a/neu ffrindiau ac efallai yn colli allan ar wneud cyfraniadau Yswiriant Gwladol tuag at eu Pensiwn y Wladwriaeth, drwy rhoi'r gorau i'r gwaith neu weithio llai o ganlyniad i ofalu.

I fod yn gymwys, mae'n rhaid i chi fod yn gofalu am gyfanswm o 20 awr neu fwy yr wythnos am un neu fwy o bobl sy'n cael Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini neu Lwfans Gweini Cyson. Os nad ydynt yn derbyn y budd-daliadau hyn efallai byddwch dal yn gallu cael Credyd Gofalwr ond byddwch angen gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol i gadarhau fod y gofal rydych yn ei ddarparu yn briodol. Hefyd mae'n rhaid i chi fod rhwng 16 a'ch oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Nid oes rhaid i chi wneud cais ar wahan am Gredyd Gofalwr os ydych yn derbyn budd-daliadau fel Lwfans Gofalwr, Cymhorthdal Incwm fel gofalwr, neu Fudd-dal Plant am blentyn o dan 12 yn barod, yn yr achosion hyn mae eich Pensiwn y Wladwriaeth wedi'i ddiogelu eisoes.

A fyddech chi'n elwa?

Mae yna nifer o grwpiau o ofalwyr a all elwa. Mae rhain yn cynnwys gofalwyr sydd yn colli allan ar Lwfans Gofalwr oherwydd eu bod:

- ddim yn treulio amser yn gofalu am rywun am 35 awr neu fwy yr wythnos
- yn edrych ar ôl rywun sydd ddim yn hawlio budd-daliadau anabledd
- yn gofalu am berson anabl neu sâl lle mae rhywun arall yn hawlio Lwfans Gofalwr am edrych ar eu hôl
- yn edrych ar ôl nifer o bobl ond nid yn gofalu am ddim ond un ohonynt am 35 awr neu fwy yr wythnos
- yn gofalu a gweithio ond ddim yn ennill digon i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol am y flwyddyn gyfan
- yn gofalu ac yn hunan-gyflogedig

Gall gofalwyr sy'n cael rhai budd-daliadau fel Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth weld hi'n fuddiol i wneud cais am Credyd Gofalwr gan efallai gallant cael credydau tuag at yr Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Gallant dod o hyd i fwy o wybodaeth am Credyd Gofalwr drwy fynd i www.direct.gov.uk/carerscredit neu ffonio:

0845 608 4321

0845 604 5312

11. Sut gallaf ddod o hyd i unrhyw bensiwn preifat, personol neu weithle coll?

Efallai eich bod wedi talu i mewn i gynlluniau pensiwn am gyfnod byr ac wedi anghofio amdanynt. Gall symiau bychan adio i fyny a gwneud gwahaniaeth mewn ymddeoliad, Mae tua £3 biliwn heb eu hawlio mewn cyfrifon pensiwn. Cewch wybod mwy yn www.direct.gov.uk/olrhainpensiwn

Cysylltwch â ni am fod yn bartner:
mailto:pensions.planning@dwp.gsi.gov.uk

DWP Adran Gwaith a Phensiynau